*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Hydref 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar waith is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Cafodd hwn ei sefydlu mewn ymateb i'r argymhelliad gan y cyfarfod ar 20 Ionawr 2025 i swyddogion barhau i ddyfeisio a phrofi datrysiadau amgen gyda chyrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, er mwyn mynd i'r afael â darpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ers y diweddariad diwethaf a gafodd yr Awdurdod ar 21 Gorffennaf 2025, mae'r cynllun peilot sydd wedi'i ddisgrifio yn y cydgytundeb bellach wedi'i weithredu, gan ddechrau trwy newid yr amseroedd dechrau a gorffen ar draws pob un o'r wyth gorsaf amser llawn. Mae'r peilot wedi'i gynllunio i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gorsafoedd amser cyflawn, e.e. cynyddu gwytnwch.

3 Mae'r Grŵp Gweithredu'r Cydgytundeb bellach wedi cytuno ar gyfres bolisi sy'n manylu ar egwyddorion ac arferion gwaith y cydgytundeb mewn perthynas â gweithdrefnau gwytnwch, ynghyd â pholisi rhestr amser cyflawn newydd. Disgwylir i'r dogfennau hyn fynd trwy'r broses ymgynghori ffurfiol ym mis Hydref 2025.

4 Symudwyd y byrddau dyrchafu ar gyfer rheolwyr goruchwylio er mwyn caniatáu i bersonél ddechrau swyddi newydd pan fo'r flwyddyn gwyliau blynyddol newydd yn dechrau. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hehangu i bob lefel reoli yn ystod 2026 er mwyn cefnogi'r cydgytundeb yn llawn.

5 Cyflawnwyd proses i symud 12 diffoddwr tân i swyddi amser cyflawn. Bydd hyn yn cefnogi criwio gorsafoedd cnewyllol Dolgellau a Phorthmadog, gan greu cyfleoedd cyflogaeth amser llawn yn yr ardaloedd gwledig hynny am y tro cyntaf.

6 Cwblhawyd rhaglen i sefydlu’r Tîm Gwledig Amser Cyflawn yn llwyr, gyda’r nod o sicrhau eu bod yn gallu cefnogi gorsafoedd ar alwad a gorsafoedd cnewyllol mewn ardaloedd gwledig, gan wella gwytnwch a darpariaeth frys.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o’r blaen.

## ARGYMHELLIAD

8 Argymhellir bod yr Aelodau’n:

- **i) Nodi fod swyddogion yn parhau i weithio gyda chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol ers llofnodi’r Cydgytundeb yn ddiweddar;**
- **ii) Nodi fod cynllun peilot y Cydgytundeb wedi dechrau ar 2 Medi 2025, trwy gael amseroedd dechrau a gorffen pob gorsaf amser cyflawn i gyd-fynd â’i gilydd, a thrwy adleoli diffoddwyr tân amser cyflawn i orsafoedd tân Porthmadog a Dolgellau; a**
- **iii) Nodi y bydd Grŵp Gweithredu’r Cydgytundeb yn parhau i fonitro ac adolygu sut mae'r trefniant cydweithredol yn gwella darpariaeth frys yng nghefn gwlad, gan reoli unrhyw broblemau sy'n codi yn ystod cyfnod y peilot.**

## CEFNDIR

9 Ers llofnodi'r cydgytundeb ar 19 Mai 2025, mae tîm Grŵp Gweithredu’r Cydgytundeb wedi bod yn gweithio ar gyfres o ddogfennau polisi a fydd yn cytuno ar sut y bydd y cydgytundeb yn cael ei weithredu.

## GWYBODAETH

10 Mae rhagor o fanylion am y newidiadau shifft a drafodir uchod i’w gweld yn y graff isod.

| Start and finish times at existing WDS stations under this agreement | | | |
|---|---|---|---|
| **Station** | **Day Shift** | **Night shift** | **Positive hours** |
| Rhyl, Deeside, Wrexham | 08.00 – 18.00 | 18.00 – 08.00 | N/A |
| | | | |
| Caernarfon, Bangor, Holyhead, Llandudno, Colwyn Bay | 08.00 – 18.00 | N/A | ** Locally agreed** |

11 Dechreuodd y cynllun peilot i gyflwyno dwy wylfa gnewyllol o bum diffoddwr tân amser cyflawn (cyfanswm o ddeg) ym Mhorthmadog a Nolgellau ar 2 Medi 2025. Mi fydd yr diffoddwyr tan yma yn ymateb ochr yn ochr a'r diffoddwyr tan ar-alwad presennol yn yr gorsafoedd hyn. Cynhaliwyd ymweliadau gan y Pennaeth Ymateb a swyddogion allweddol eraill, ochr yn ochr â'r tîm cyfleusterau, i sicrhau bod lles staff wedi'i flaenoriaethu drwy gydol y newidiadau hyn. Mae'r tîm cyfleusterau wedi llunio cyfres o gynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau i'r ddwy orsaf i gefnogi'r model criw cnewyllol newydd.

12 Mae Grŵp Gweithredu'r Cydgytundeb wedi creu storfa ganolog o ddogfennau gwybodaeth a chanllawiau, gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin, ar fewnrwyd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) er budd yr holl bersonél. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru ar ôl pob cyfarfod Peilot Monitro ac Adolygu.

13 Mae agenda safonol i adolygu'r peilot yn unol ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol wedi'i chytuno â chyrff cynrychioliadol i sicrhau bod yr holl ddata perthnasol yn cael ei gasglu. Gwneir hyn er mwyn gweld a yw'r peilot yn perfformio'n llwyddiannus ynteu a oes angen cyflwyno diwygiadau pellach ar y cyd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Rhaid i ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Cyllideb | Rhaid i unrhyw ateb fod o fewn y gyllideb a gymeradwywyd |
| Cyfreithiol | Amh. |
| Staffio | Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio gyda staff a'u cyrff cynrychioliadol a bydd yn parhau i wneud hynny. Darperir diweddariadau rheolaidd yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi a thrwy'r Crynodeb Wythnosol yn ogystal â thrwy ymweliadau â gorsafoedd gan swyddogion |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi ymgysylltu â grwpiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol, ac mae adborth un cael ei gasglu fel rhan o'r broses honno |

| | |
|---|---|
| Risgiau | Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gwaith y Grŵp Gweithredu a ddaeth yn ei sgil yn ceisio lleihau'r risgiau o beidio â gallu ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru |